

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 10 Mawrth 2020 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7.00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Eifion Williams	
Dan Williams	Lliwen Griffith-Williams	
Cynog Prys	Llŷr Evans	
Mei Gwilym	Iestyn Harris	
	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Elliw Williams, Nerys John a Casi Roberts. Cyfeiriodd Y Cadeirydd at ymddiswyddiad Aled Emyr, gan ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor; Y Clerc i anfon ato yn datgan hyn	CLERC
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
2.1	Gwahoddwyd y Cynghorydd Sir i gyflwyno ei adroddiad llafar. Cychwynnodd gyda chyflwyno cynlluniau o'r cynllun Ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon. Bydd y Cynlluniau i'w gweld yn y neuadd.	DW
2.3	Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi cael cyfarfod gyda Swyddogion o'r Adran Briffyrdd ynglŷn â pharcio ger gwaelod allt Brynffynnon; bydd llinellai melyn dwbl yn cael eu hystyried yno.	
2.4	Cyfeiriodd hefyd bod yr Adran Briffyrdd wedi bod yn casglu sbwriel ar ymylon y ffyrdd tu allan i'r cyfyngiadau cyflymdra dwywaith yn ddiweddar.	CLERC
2.5	Yn dilyn girder yn cael ei chwythu oddi wrth adeilad yn ddiweddar mae Adran Rheoli adeiladau wedi ymweld ac wedi gosod amodau i wirio diogelwch yr adeilad cyn bod adeiladu yn parhau.	
2.6	Dywedodd hefyd ei fod wedi bod mewn trafodaethau i ymestyn 30 ger y Cae Peldroed tuag at Fangor. Roedd swyddogion yr Adran Briffyrdd o'r farn bod y cyfyngiad 40 yn ddigonol fel bwffer. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd byddai'r Cyngor Cymuned yn anfon at Gyngor Gwynedd i ategu cais y Cynghorydd Sir.	CLERC
2.7	Gan fod pobl yn meddwl bod mynediad i Gelli Gyffwrdd drwy Seilo ac yn mynd i drafferthion mae Cyngor Gwynedd yn mynd i osod arwyddion i arwyddo'r ffordd gywir i fynd at yr atyniad. Gobeithir bydd yr arwyddion yn cael eu codi yn fuan.	
2.8	Nid oedd wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â pha lonydd oedd i'w cael eu tarmacio. Mae wedi anfon lluniau o Ffordd Tan y Maes ac mae rhai o'r tyllau wedi eu llenwi. Mae Bryn y Môr hefyd mewn cyflwr gwael ac mae cwyn wedi ei anfon at yr adran.	
2.9	Mae Wal y Doc wedi syrthio i'r môr ac mae adran forwrol Cyngor Gwynedd wedi eu hysbysu er hynny cyfrifoldeb y Marina Yw ac maent hwy wedi codi rhwystrau i ddiogelu'r safle. Bydd y mater yn derbyn asesiad yr wythnos yma.	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Mae wal yr harbwr yn gofrestredig a bydd rhaid cynnal y wal i'r un gwneuthuriad.	
2.10	Mae cwynion wedi eu derbyn bod cyflymdra uchel ger Helen Terrace ac mae'r mater wedi ei anfon at yr Adran Briffyrdd.	
2.11	Dywedodd bod Cyngor Gwynedd yn paratoi ar gyfer y Novel Covid 19 i barhau a rhoi gwasanaeth. Fel pentref bydd angen ystyried cymhorthi'r rhai mewn oed a bregus.	
2.12	Gwaith wedi cychwyn ar wal Lan y môr. Dywedodd y Clerc bod angen cael cynrychiolwyr Cyngor ar gyfer pwyllgor cyswllt gyda'r contractwyr. Penderfynwyd byddai Cynog Prys a Dan Williams ynghyd a Cynghorydd Sir yn cyfarfod ar Ddydd Mercher 18 Mawrth 2020 am 4:30 yn y pnawn.	CLERC
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Chwefror 2020, derbyniwyd yn gywir gan y Cyngor.	
4.2	Derbyniwyd cydnabyddiaeth o'r cymorth ariannol gan Y Goriad, Clwb Peldroed Y Felinheli, Yr Eglwys, Parch. Y Clerc i ofyn i'r Cynghorydd Nerys John os yw wedi rhoi rhestr o'r Cymorth ariannol ar safle facebook y Cyngor.	
4.3	Daeth anfoneb Gyngor Gwynedd i law am y gwaith o dorri'r gwair o fewn y pentref dros y flwyddyn 2019 - 2020. Cytunwyd i'r Swyddog Ariannol ei dalu.	
4.4	Derbyniwyd anfoneb oddi wrth Owen & Palmer, cytynwyd bod y Swyddog Ariannol yn ei dalu.	
4.5	Trafodwyd cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cynghorwyr. Penderfynwyd y byddai'r eitem yma ar agenda Mis Ebrill ar gyfer trafodaeth mewn paratoad ar gyfer Cyfarfod blynyddol y Cyngor.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Chwefror 2020.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	C20/0222/20/LL - Swn y Môr, Caernarfon LL55 1UE - Dymchwel stablau presennol a chodi stablau newydd yngyd a chodi adeilad ysgol farchogaeth dan do, milodfa marchogaeth a seilwaith cysylltol (gan gynnwys ad-drefnu'r trefniadau mynediad a pharcio. - GWRTHWYNEBU - Bod maint ac uchder yr adeilad yn effeithio cymeriad a chadwraeth yr ardal yn enwedig gan fod Eglwys hynafol a thair mynwent o fewn yr ardal. Mae profiad distawrwydd a naws y mynwentydd yn cael eu heffeithio gan sŵn a fyddai yn cael ei gynhyrchu ar y fenter.	CLERC
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANAU	
7.1	Cysgodfan Bws ger Cwrt Menai - dim symudiad.	
7.2	Mae sensitivity y golau solar oedd ar brawf wedi ei ddatrys a bydd y gwaith o'i godi yn cael ei gwblhau yn y bythefnos nesaf.	DW/EW
7.3	Bydd y Cynghorydd Dan Williams yn gwneud fwy o ymholiadau ag Adran Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd am	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	y Golau Solar ger Cerrig yr Afon.	
7.4	Prydles hen dir rheilffordd - Wedi ymweld â'r safle ag astudio'r sefyllfa ynghyd a'r brydles mae'r Cynghorydd Dan Williams a Chynghorydd Iwan Huws yn cyd-fynd a chais Mr G Jones i drwyddedu rhan o'r tir. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o hyn ynghyd a chyfeirio bod ardal tu gefn i Melan wedi ei gymryd heb drwydded. Y Clerc hefyd i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn gwybod bod y Cyngor Cymuned am symud ymlaen a'r fenter Llwybr Beics pan ddaw arian ar gael a bod deilwyr y drwydded yn deall y gallai'r trefniant ddod i ben pan fydd hyn yn digwydd.	CLERC
7.5	Dywedodd y Cynghorydd Dan Williams ei fod wedi derbyn amcan bris am waith cynnal meinciau ger pen yr ysgol o lwybr Cerrig yr Afon, Carreg Goch sef £145 yr un. Cytunwyd i symud ymlaen a hyn.	DW
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	Gweler 7.4	DW/IH
8.2	Darllenodd y Clerc ymateb Adran Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd I adroddiad blynyddol y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd bod yr e-bost yn cael ei anfon at yr aelodau.	CLERC
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Mynwent - amcan bris wedi ei dderbyn ar gyfer y fainc a hefyd i godi hysbysfwrdd newydd - sef £300 ar gyfer y fainc a £420 ar gyfer yr hysbysfwrdd. Penderfynwyd symud ymlaen a'r gwaith.	
9.2	Penderfynwyd torri'r gwaith yn y fynwent ar gyfer Sul y Mamau a Sul y Blodau - Y Clerc i hysbysu'r contractwr torri gwair.	CLERC
10.0	PROSIECTAU	
	Dim i'w adrodd	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	Cafwyd tri thendr am y gwaith o godi porth. Wedi ystyried y tri phenderfynwyd ail edrych ar y gwaith a gofyn cyngor y pensaer i wahanu'r gwaith a gwneud y gwaith angenrheidiol gyntaf a hefyd oes modd cyflwyno rhywbeth arall i nadu'r glaw ddod i mewn, rhywbeth a fyddai yn llai costus. Y Cynghorydd Dan Williams i gysylltu â'r pensaer.	DW
11.2	Gwaith cynnal wedi ei wneud ar y to ar ôl i lechen ddod i lawr yn ystod y stormydd. Anfoneb am y gwaith wedi ei dderbyn £240 - cytunwyd i'r Swyddog Ariannol ei dalu. Bydd cost y Sgaffald o ddeutu £500 - anfoneb heb ei dderbyn hyd yma ond rhoddwyd hawl i'r Swyddog Ariannol ei dalu.	DW/Swyddog Ariannol
11.3	Cofnodwyd bod drws i'r balcony wedi ei drwsio; hefyd bydd gwaith i'r CCTV yn parhau wythnos yma.	
11.4	Cofnodwyd bod wet vac wedi ei brynu ar gyfer y neuadd.	DW
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC
	Bydd cyfarfod mis Ebrill yn cael ei gynnal ar y 21ain.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:10	
Llofnod:		Dyddiad: